CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 10fed o FEHEFIN 2024** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :
Cyng. Terry Jones - Cadeirydd

Cyng. Margaret Thomas
Cyng. John Lee
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Non W. Parry
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Christine Roberts (TEAMS)
Yn anffodus, camweithio gyda'r cysylltiad.

HEFYD YN BRESENNOL :
Cynghorydd Sir : Dylan W. Rees
Non Dafydd
Clerc : H. Rhys Parry
Cymhorthydd : Ms. Linda Powell

Cyfarfod yn cael ei Recordio

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn

24/049 Ymddiheuriadau : Cyng. Ieuan G. Davies, Cyng. Richard Parry, Cyng. Gwenan Ll. Evans, Cyng. Henry D. Jones Cyng. R. Alwyn Parry, Cyng. Eleri Ll. Burns. **Cynghorydd Sir :** Nicola Roberts, Geraint Bebb.

24/050 Datganiad o Ddiddordeb : Dim

24/051 Heddlu Gogledd Cymru : Dim Cynrychiolydd oherwydd pwysa gwaith.

24/052 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 20.05.2024 :
Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Non W. Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

24/053 I Ystyried Materion y Codi o Gofnodion 20.05.2024 :
1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa. **Derbyn**

24/054 Cynllunio :
I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 20.05.2024
PENDERFYNWYD derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

24/055 I Dderbyn unrhyw Gyfathrebion y Maer :

Cadeirydd yn adrodd, fel a ganlyn :

1 **Derbyniad Blynyddol Llu Awyr Brenhinol Y Fali – 07.06.2024 :** Maer a'r Dirprwy Faer wedi mynychu'r Achlysur ac wedi bod digon ffodus i weld "Fly-Past" gan y Red Arrows;

2 **Gwahoddiad : Digwyddiad Gwybodaeth Awtistiaeth 12.06.2024 :** Sesiwn "Galw Heibio" – Croeso i'r Aelodau fynychu;

3 **Gŵyl Cefni : 05-08 Mehefin :** Cadeirydd yn adlewyrchu ar noson lwyddiannus iawn, gydag oddeutu 2,000 o dorf Nos Wener a 3,000 Nos Sadwrn. Tywydd yn ffafriol a braf gweld pawb yn mwynhau'r awyrgylch o gwmpas y dref.
Cyng. J. Egryn Lewis yn dwyn sylw dylid ystyried gostwng rhai o'r cyfraniadau flwyddyn nesaf ac edrych i mewn i godi'r cyfraniad ar gyfer Gŵyl Cefni. Aelodau yn cytuno gydag awgrym Cyng. Lewis. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

24/056 Materion yn Codi gan Aelodau :

1 **Cyng. Terry Jones : Tyfiant o Chwyn o gwmpas y Dref :** Cadeirydd yn adrodd fod cwynion wedi'i derbyn am y gordyfiant o chwyn o gwmpas y dref . Clerc wedi ysgrifennu at Swyddogion y Cyngor Sir yn tynnu hyn i'w sylw ac wedi derbyn cadarnhad fod Contractwyr wedi bod o gwmpas y dref gyda chwyn laddwr. Cyng. Margaret Thomas yn adrodd fod ardal Llawr y Dref hefyd angen sylw i gadw'r chwyn i lawr. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

24/057 Adroddiad y Clerc :

Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:

1 **Dathlu D-Day 06.06.2024 :** Cwynion wedi'u derbyn nad oedd yr Achlysur wedi'i nodi gan y Cyngor Tref ac wedi datgan siom yn hyn. Dim sylwadau gan yr Aelodau.

2 **Capel Fynwent Lon Newydd :** Contractwr wedi gosod y sgaffaldiau a'r gwaith wedi cychwyn. Yn dilyn sgwrs gyda'r Contractwr, Clerc yn cadarnhau dylid fod y gwaith wedi'i orffen ymhen pythefnos. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

3 **Cae Criced :** Clerc yn argymell buasai'n syniad i Bwyllgor nesaf Y Fynwent a Meysydd Chwarae 17.06.2024, gyfarfod a'r safle'r Cae Criced, er mwyn i'r Aelodau gael golwg ar yr ased. Symud ymlaen wedyn i safle chwarae Maes Hyfryd, Lôn Newydd i weld y gwelliannau. Cyng. J. Egryn Lewis yn awgrymu dylid gwahodd yr Holl Aelodau i'r Ymweliadau fel bod pawb yn gyfarwydd gydag Asedau'r Cyngor Tref. Cyng. Non Parry yn cynnig fod y Pwyllgor yn agored i bawb a dylid anfon e-bost yn esbonio hyn gyda'r Rhaglen ynghlwm. Aelodau yn cytuno. **PENDERFYNWYD** gwahodd yr Holl Aelodau i Ymweliad Safle Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae, Nos Lun 17eg o Fehefin 2024.

4 **Difrod : Y Llys :** Anfonebau am y gwaith atgyweirio wedi'u hanfon at y Cwmni Yswiriant, disgwyl diweddariad gan y Cwmni am y cais. **Derbyn**

5 **Camerâu CCTV Ychwanegol :** Oherwydd y difrod i'r Llys, mae Camerâu CCTV wedi'u gosod tu allan i'r adeilad i rwystro mwy o fandaliaeth.
Yn dilyn o'r uchod, Clerc yn adrodd fod Prosiect ar y gweill gyda Chyngor Gwynedd i edrych ar gais am 35 o Gamerâu ychwanegol o gwmpas y dref. Swyddog o Gyngor Gwynedd wedi ymweld â'r system bresennol yn Swyddfa'r Cyngor Tref ac yn rhagweld bydd angen gwario'r arian cyn Mis Rhagfyr eleni. Mwy o fanylion fel mae'r cais yn datblygu. **Derbyn**

6 **Cymdeithas Elusennol Ynys Môn :** Yn dilyn cyllideb y Cyngor Tref o £12,500 tuag at offer newydd yn safle chwarae Maes Hyfryd, cais grant wedi'i gyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn i ychwanegu offer anabl ar y safle yma. Disgwyl clywed os bydd y cais yn llwyddiannus. Dim trafodaeth bellach

24/058 Adroddiad Pwyllgorau Allanol :

1 **Grŵp Adfywio Llangefni : I Gadarnhau Cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Grŵp :** Cyng. Margaret Thomas wedi datgan yn y Cyfarfod Blynyddol 13.05.2024 nad oedd yn dymuno parhau fel Cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Grŵp ac yn cadarnhau hyn eto heno. Clerc yn esbonio nad ydyw cyfarfodydd y Grŵp yn agored i bawb dim ond i Aelodau penodedig. Cyng. J. Egryn Lewis yn fodlon rhoi ei enw ymlaen. Cyng. Non Parry yn adrodd ei bod yn Aelod o'r Grŵp a bod Cyng. Christine Roberts a diddordeb hefyd. Cyng. Parry yn fodlon i Cyng. Roberts gael ei enwebu yn ei lle hi. Yn dilyn trafodaeth fer, **PENDERFYNWYD** fod dim gwrthwynebiad i Cyng. Lewis fynychu'r Cyfarfodydd ar ran y Cyngor Tref a gofyn i'r Clerc gysylltu gyda Cyng. Roberts i gadarnhau ei dymuniad i ymuno a'r Grŵp.

2 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - Cyfarfod 13.06.2024 wedi ei ohirio hyd at 18.07.2024 :** Er Gwybodaeth.

24/059 Cyllid :

I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Mai 2024 : Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod i archwilio'r Anfonebau. Clerc yn esbonio, fel a ganlyn :

1 **Trydan Parc Sglefrio £58.70 :** Cyng. John Lee yn holi am y taliad yma : Eglurhad fod yn ad-daliad am ddefnydd / "Standing Charge" trydan yn unol â throsglwyddiad y Parc i'r Cyngor Tref. Bydd y contract trydan gyda Scottish Power yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref maes o law. Clerc yn cadarnhau hefyd fod Yswiriant y Parc Sglefrio wedi ei gynnwys o dan Yswiriant y Cyngor Tref. Dim trafodaeth bellach.

2 **Garej Bryntirion - Cerbyd £50.00 :** Cyng. J. Egryn Lewis yn dwyn sylw ei fod wedi derbyn eglurhad llynedd paham fod Prawf MOT'r Cerbyd wedi ei wneud yn Llanerchymedd. Cyng. Lewis yn anfodlon fod y gwaith yma eleni wedi ei wneud eto yn Llanerchymedd ac nid o fewn dalgylch Llangefni . Cyng. Lewis yn awyddus, i'r dyfodol, fod y math yma o waith yn aros o fewn y dref. Dim ymateb gan yr Aelodau. Clerc yn esbonio fod y trefniant yma oherwydd cyfleustra yn unol ag oriau gwaith. Yn dilyn o'r uchod, Cadeirydd yn awgrymu ail-edrych ar hyn pan fydd y Prawf MOT yn ddyledus yn Mis Ebrill 2025. **Derbyn**

24/060 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :

Cynghorydd Sir yn adrodd, ar y canlynol :

1

- Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned 13.06.2024 wedi gohirio hyd at 18.07.2024 oherwydd gwaith brys ar gyfer yr Etholiad;
- Ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi cychwyn 22.05.2024;
- Cais Cynllunio Neuadd y Sir : Cais Llawn ar gyfer codi 6 uned breswyl ynghyd a gwaith cysylltiedig : Cais wedi'i alw i mewn am Ymweliad Safle;
- 21.05.2024 : Yn y Cyfarfod Blynyddol, bu ethol Cyng. Non Dafydd fel Is-gadeirydd y Cyngor Sir - Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd.

Cadeirydd yn diolch i'r Cynghorwyr am eu hadborth

24/061 Gohebiaeth a Materion Newydd :

1 **IRPW - Cydnabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr Cymuned a Thref - Mai 2024 - 20.05.2024 :** Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau o gynnwys y ffurflen "Lwfans Aelodau" a'i dychwelyd i'r Swyddfa os nad ydynt yn dymuno derbyn y taliad.

2 **Cyngor Sir Ynys Môn - Terfyn Cyflymder 20mya - 20.05.2024 -** Llythyr wedi ei rannu gyda'r Aelodau o flaen y Cyfarfod. Cynghorydd Dylan Rees yn argymell fod y Cyngor Tref yn ystyried y Parthau 20mya, yn arbennig yn ardal yr Ystâd Ddiwydiannol.
Yn dilyn o'r uchod, Cyng. Non Dafydd yn adrodd fod Swyddfa Rhun ap Iorwerth wedi gofyn am sylwadau ar "Effaith newid Cyfyngiadau Cyflymder 20mya" trwy e-bost yn ddiweddar. Cyng. Dafydd yn datgan fod yn bwysig iawn gwrando ar farn trigolion yr ardal leol ac yn annog pawb i anfon eu sylwadau ymlaen.. Dim trafodaeth bellach.

3 ***PARHAD 24/061***

Cyngor Sir Ynys Môn - Cynllun Adnewyddu Troedffyrdd Canol y Dref - 31.05.2024 : Gwybodaeth wedi eu rhannu gyda'r Aelodau o flaen y Cyfarfod. Cyng. J. Egryn Lewis yn dwyn sylw fod y cynllun atodol yn anodd ei ddarllen oherwydd bod yr ysgrifen mor fach a gofyn am gynllun gwell. Clerc yn adrodd fod cynllun mwy ar gael yn y Swyddfa.

Cysgodfan Bws, Stryd Fawr : Cyng. J. Egryn Lewis yn dwyn sylw fod dim sedd yn y Cysgodfan yma ers llawer amser ac yn holi paham nad oes unrhyw beth wedi ei wneud am hyn. Cyng. Lewis yn pryderu oherwydd bod llawer o ddefnydd ar y safle yma a thrigolion ddim yn gallu eistedd o fewn y gysgodfan. Clerc yn egluro fod gwelliannau i'r Cysgodfan yma yn rhan o gynllun gwreiddiol gan y Cyngor Sir, ond erbyn hyn nid oes arian ar gael i gwblhau'r cynllun. Cytunwyd gofyn i'r Clerc anfon e-bost at Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i holi am y sefyllfa bresennol. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

24/062 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :
Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Mai 2024 :

1 Un Llais Cymru : Derbyn
2 Materion Eraill : Derbyn

24/063 I Ystyried Unrhyw Fater Brys Gan y Cadeirydd : Dim
Cyng. John Lee yn datgan, cyn cau'r Cyfarfod, dylid unrhyw gwynion wedi'u cyfeirio at y Cyngor Tref, gael eu derbyn yn ysgrifenedig neu ni fyddent yn cael eu trafod. (D-Day 06.06.2024) Dim trafodaeth ar hyn.

24/064 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : Nos Lun 8fed o Orffennaf 2024

CYNG. TERRY JONES
CADEIRYDD